**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 9 Medi 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, A.Thomas, A.Thomas, C.Griffiths, N.Chappel, S.Curran, A.Manchipp, N.Headon, and J.Woodman-Ralph |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Er mawr ofid iddo, atgoffodd y Maer yr aelodau am farwolaeth sydyn y Cynghorydd Steffan ap Dafydd. Yn ogystal, dywedwyd wrth y cyngor am farwolaeth mam y Cynghorydd Nicola-Jayne Davies.

Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod y cyngor.

Talwyd teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Steffan ap Dafydd gan y Dirprwy Arweinydd ac arweinwyr y Grŵp Annibynnol a Phlaid Cymru ar ran eu haelodau.

2. **DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR BOD HYN YN ADDAS: BLWYDDYN DDINESIG 2020/2021**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gofnodion cywir, yn amodol ar gywiro lleoliad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020 i 'O bell drwy Microsoft Teams':

29 Ionawr 2020, 14 Chwefror 2020, 26 Chwefror 2020, 6 Mawrth 2020, 28 Mai 2020 and 2 Gorffennaf 2020.

3. **DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADOLYGU'R POLISI TRWYDDEDU**

**PENDERFYNWYD:** Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gychwyn ymarfer ymgynghori mewn perthynas â Pholisi arfaethedig Deddf Trwyddedu 2003 ac y dylid cyflwyno adroddiad i'r cyngor ym mis Rhagfyr 2020 am gymeradwyaeth i fabwysiadu polisi Deddf Trwyddedu 2003, gan ystyried materion a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 4 isod yn awr, cytunodd y Maer y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

## 5. **DIWEDDARIAD AR COVID-19**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r cyngor ar nifer yr achosion newydd o COVID-19 yn ardaloedd yr awdurdodau lleol cyfagos. Mynegwyd pryder y byddai'r cynnydd yn y niferoedd yn arwain at fwy o gyfyngiadau symud lleol a chytunodd yr aelodau y dylid atgyfnerthu negeseuon mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi y byddai taflen wybodaeth a ddatblygwyd ar y cyd gyda Dinas a Sir Abertawe a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn cael ei ddosbarthu i bob aelwyd yn fuan.

**CHAIRPERSON**